Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Fawrth, 7 Mai 2019 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

107. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

108. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

109. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2019 yn gywir.*

110. MATERION YN CODI
Gofynnodd yr aelodau am gynnwys y craen yn y Ganolfan Grefft ac adolygu'r meinciau yn Rhuthun, yn cynnwys y cais i adfer main ger cofeb Tom Pryce, fel eitemau agenda yn y cyfarfod nesaf.

111. DYFYNBRIS DYFRIO COED
Esboniodd y Clerc nad oedd y dyfynbris wedi dod i law.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda'r contractwr eto i gael dyfynbris.*

112. DIWEDDARIAD YNGHYLCH SGWÂR SANT PEDR
Esboniodd y Cadeirydd y byddai'r arolwg topograffegol yn cael ei ymestyn yn awr i gynnwys cyffyrdd Ffordd Wynnstay gyda Stryd y Farchnad a Stryd y Ffynnon. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i ariannu'r gwaith ychwanegol hwn.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

113. GRŴP TREF TACLUS
Dywedodd y Cadeirydd y byddai sesiwn nesaf y Tîm Tref Taclus yn digwydd ddydd Sul, 11 Mai.
PENDERFYNWYD*: nodi'r dyddiad.*

116. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 10 Mehefin 2019 am 7:00pm.*

117. DIWEDDARIAD GAN WEITHGOR YR HEN LYS
Dywedodd y Cynghorydd Gavin Harris bod y gwaith i dynnu'r wal bren ymaith wedi'i gwblhau, a chafwyd anfoneb gan Formabuild am £306 + £61.20 TAW, i'w dalu cyn pen 7 diwrnod. Gofynnodd i aelodau'r ddau Bwyllgor gymeradwyo'r taliad hwn.
PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r taliad.*

118. CYFLWYNIAD GAN JULIE PIERCE A VANESSA VAN LIERDE, CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH YNGHYLCH EU RHAGLEN SIR DDINBYCH DEMENTIA YMWYBODOL
Croesawodd y Maer y Swyddogion Llesiant o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i gyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Amwynderau a Chynllunio. Gwnaethant gyflwyno gwybodaeth am raglen Sir Ddinbych Dementia Ymwybodol, a gwahodd y Cynghorwyr i'r digwyddiad lansio i'w gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Eirianfa, Dinbych, ddydd Mercher, 22 Mai 2019, 10am – 2pm. Crybwyllwyd y grantiau Cymunedau Dementia Ymwybodol ac adnoddau, a dweud y byddent yn darparu'r rhain i'r Clerc eu rhannu gyda'r aelodau. Cafodd yr aelodau gyfle i holi cwestiynau, ac yn diolchodd y Maer iddynt am eu cyflwyniad.
PENDERFYNWYD: *nodi'r cyflwyniad.*